ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwahoddiad: Cwricwlwm i Gymru: Cyfres o ddigwyddiadau Tegwch a Chynwysoldeb



Hoffem wahodd eich sefydliad i ymuno â ni mewn digwyddiad yng nghyfres Tegwch a Chynwysoldeb Cwricwlwm i Gymru a gynhelir ar:

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Iau Tachwedd 23ain 2023 | 1-5pm | Cornerstone, Caerdydd |
| Dydd Mawrth Tachwedd 28ain 2023 | 1-5pm | Neuadd Brangwyn, Abertawe |
| Dydd Iau Tachwedd 30ain 2023 | 10am -3pm | Neuadd Gregynog, Y Drenewydd (digwyddiad Cymraeg) |
| Dydd Mercher Ionawr 24ain 2024 | 1-5pm | Canolfan Celfyddydau Aberystwyth |
| Dydd Mercher 31ain Ionawr | 1-5pm | Tŷ Pawb, Wrecsam |
| Dydd Iau Chwefror 1af 2024 | 1-5pm | M-SParc, Ynys Môn |

Diben y digwyddiadau yw dod ag ymarferwyr a phartneriaid ynghyd i ddysgu, a rhannu profiadau, fel y gallwn gydweithio i ddatblygu system deg ble mae pob dysgwr yn elwa o addysg eang a chytbwys.

Fel rhan o'r 'Farchnadfa' yn y digwyddiadau, cewch gyfle i siarad gyda'r ymarferwyr ynglŷn â sut y gall eich sefydliad weithio gyda'r ysgolion a lleoliadau addysgiadol eraill i gefnogi tegwch a chynwysoldeb. Byddem yn hynod falch pe baech yn gallu ymuno ag unrhyw un o'r digwyddiadau a gynhelir mewn ardaloedd lle mae eich sefydliad yn gweithredu.

Fel rhan o'ch ymrwymiad, fe ychwanegir eich sefydliad a'ch gwasanaethau i gyfeiriadur fydd ar gael i ymarferwyr ar Hwb, platfform dysgu Cymru gyfan. Ar y diwrnod bydd bwrdd a lliain yn ogystal â gofod ar gyfer stondin eich cwmni yn cael eu darparu ar eich cyfer. Unwaith y byddwch wedi archebu eich lle (llefydd), byddwn yn cysylltu â chi gyda manylion amseroedd gosod i fyny yn y lleoliad.

Bydd y digwyddiadau yn cynnwys sesiwn carwsél ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion ar hyn o bryd yn ogystal â sesiwn marchnadfa. Gweler yr agenda isod:

| Agenda | | Agenda Gregynog | |
|---|---|---|---|
| 13:00 | Croeso a Chyflwyno<br>Ar gyfer Ymarferwyr yn unig<br>(gosod Marchnadfa) | 10:00 | Croeso a Chyflwyno<br>Ar gyfer Ymarferwyr yn unig<br>(gosod Marchnadfa) |
| 13:15 | Carwsél: ymarferwyr yn trafod eu profiadau gyda'i gilydd | 10:30 | Carwsél: ymarferwyr yn trafod eu profiadau gyda'i gilydd |
| 15:15 | Te Prynhawn a Marchnadfa | 12:30 | Marchnadfa (gyda Chinio o 13:00 yn y Farchnadfa) |
| 17:00 | Diolch a chloi | 15:00 | Diolch a chloi |

Digwyddiad iaith Gymraeg, yn cychwyn am 10.00am fydd digwyddiad Gregynog. Os oes gan eich sefydliad staff sy'n siarad Cymraeg, byddem yn falch iawn pe baech yn cymryd rhan yn eich rhanbarth eich hun ac yn y digwyddiad iaith Gymraeg Cymru gyfan.

Archebwch eich lle/llefydd rhad ac am ddim heddiw ac ymunwch â ni i drafod sut y gallwn ni gyd weithio gyda'n gilydd i gefnogi'r holl ddysgwyr i fod yn ddinasyddion uchelgeisiol, iach, mentrus ac egwyddorol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

Dalier sylw os gwelwch yn dda, dim ond yn unig ar gyfer y trydydd sector a sefydliadau nid-er- elw mae'r 'Farchnadfa'.

**Sicrhewch eich lle rhad ac am ddim yma os gwelwch yn dda.**

Cofion cynnes

Owain Lloyd,
Cyfarwyddwr Addysg a'r Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cymru